PWYSIGRWYDD CYNLLUNIO DIOGELWCH

Fe ddangosodd yr ymosodiadau gyda bomiau yn Llundain ym mis Gorffennaf 2005 bod y bygythiad yn sgil brawychiaeth yn real a difrifol.

Er mai pethau prin fu ymosodiadau hyd yn hyn, mae'n bosib y byddwch chi neu eich sefydliad yn cael eich dal mewn digwyddiad brawychol. Gallai hyn gynnwys gorfod delio â bygythiad bom neu eitemau amheus yn cael eu hanfon drwy'r post neu eu gadael ar y safle. Ar ei waethaf, fe allai bom brawychwyr effeithio'n uniongyrchol arnoch chi neu eich staff.

Y mae brawychiaeth yn ymwneud â mwy nag ymosodiad corfforol. Gallai fod ar ffurf ymosodiadau ar systemau gwybodaeth neu gyfathrebu, gan achosi aflonyddwch a difrod economaidd. Mae'n haws i rai ymosodiadau ddigwydd os bydd y brawychwyr yn cael cymorth uniongyrchol neu anuniongyrchol gan rywun 'ar y tu mewn', neu gan rywun â gwybodaeth neu fynediad arbenigol. Mae brawychiaeth hefyd yn cynnwys bygythiadau neu ffugio gosod bom er mwyn dychryn a chodi ofn.

Y mae tri rheswm busnes arbennig pam y dylai eich sefydliad gynllunio i atal digwyddiadau o'r fath, neu leihau eu heffaith o leiaf. Sef:

- Rhwymedigaeth gyfreithiol

Petai rhywbeth yn digwydd, mae'n debygol y bydd eich cynlluniau'n dod dan y chwyddwydr. Mae rheoliadau iechyd a diogelwch yn gosod cyfrifoldeb ar berchennog neu breswylydd y safle i ddarparu dyletswydd gofal am aelodau staff ac ymwelwyr. Er y gall yr heddlu ac asiantaethau eraill gynnig cyngor, mater i'r perchennog neu'r preswylydd yw ceisio'r cyngor hwnnw a'i weithredu. Mewn unrhyw ymchwiliadau neu achosion llys dilynol, byddai angen i chi dangos eich bod wedi rhoi ystyriaeth i'r ddeddfwriaeth berthnasol

- Parhau â'r busnes

Gwnewch yn siwr fod eich busnes yn gallu ymdopi â digwyddiad neu ymosodiad a dod yn ôl i drefn cyn gynted â phosib. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fusnesau llai, nad oes ganddynt yr adnoddau o bosib i wrthsefyll hyd yn oed ychydig ddiwrnodau heb fasnachu

- Colli enw da.

Hefyd, dylech wneud yn siwr bod gan eich sefydliad yswiriant digonol rhag bygythiadau brawychol – holwch eich cwmni yswiriant neu frocer yswiriant.

Y mae gwerth cyfyngedig i warchod eich safle busnes eich hun yn unig. Rhowch ystyriaeth i gynlluniau eich cymdogion a chynlluniau'r gwasanaethau brys, yn enwedig os ydych mewn adeilad sydd â llawer o ddeiliaid.

Beth allwch chi ei wneud

- Meddyliwch am y bygythiadau y gallech eu hwynebu a'r risgiau posib.
- Cymerwch y cyngor gorau posib ynghylch sut i leihau'r posibiliadau y bydd ymosodiad gan frawychwyr yn achosi niwed i'ch staff ac ymwelwyr ac yn tarfu ar weithgareddau eich busnes.
- Datblygwch gynlluniau wrth gefn, gan sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd â nhw ac yn eu hymarfer.
- Peidiwch â datblygu eich cynlluniau ar eich pen eich hun. Gwnewch yn siwr fod eich trefniadau yn gydnaws â rhai'r gwasanaethau brys a'ch cymdogion.
- Adolygwch a diweddarwch eich cynlluniau wrth gefn yn rheolaidd.

RHEOLI'R RISGIAU

Os ydych yn meddwl y gallai ymosodiad gan frawychwyr effeithio ar eich sefydliad, fe ddylech ddefnyddio mesurau diogelwch amddiffynnol a phriodol.

Mae'r diagram canlynol yn dangos cylch rheoli risg nodweddiadol a'r pedwar cam y gallwch eu cymryd i amddiffyn eich busnes:

Cylch rheoli risg

CYLCH RHEOLI RISG

1. Nodi'r bygythiadau
2. Penderfynu'r hyn rydych eisiau ei amddiffyn a'ch gwendidau
3. Nodi mesurau i leihau risg (gwella diogelwch/cynlluniau diogelwch)
4. Adolygu eich mesurau diogelwch ac ymarfer/adolygu eich cynlluniau diogelwch

Cam 1: Nodi'r bygythiadau

Gofynnwch y cwestiynau canlynol:

- Beth ellir ei ddysgu gan y Llywodraeth a'r cyfryngau am yr hinsawdd diogelwch ar hyn o bryd a gweithgareddau brawychol yn ddiweddar?
- A oes unrhyw beth am y sefydliad, yr adeilad neu'r staff a allai ddenu ymosodiad gan frawychwyr?
- A oes cysylltiad ag unigolion neu sefydliadau amlwg a allai fod yn dargedau i frawychwyr?
- A allai difrod cyfochrog ddigwydd yn sgil ymosodiad ar gymydog sydd â risg uchel?
- A oes gennych chi unrhyw beth allai ddenu brawychwyr er mwyn hyrwyddo eu nod, e.e. deunyddiau, cynlluniau, medr technegol neu fynediad at safleoedd eraill a allai fod yn dargedau?

Cam 2: Penderfynu'r hyn y mae angen i chi ei amddiffyn a nodi'ch gwendidau

O ran diogelwch, dylech roi blaenoriaeth i'r categorïau canlynol:

- Pobl (staff, ymwelwyr, contractwyr, cwsmeriaid)
- Asedau materol (adeiladau, cynnwys, cyfarpar, cynlluniau a deunyddiau sensitif)
- Gwybodaeth (data electronig ac ar bapur)
- Prosesau (cadwyni cyflenwi, gweithdrefnau hanfodol).

Fe wyddoch beth sy'n bwysig i chi a'ch busnes. Mae'n debyg fod gennych gynlluniau eisoes ar gyfer delio â thân a throsedd, gweithdrefnau ar gyfer asesu gonestrwydd y bobl rydych yn eu cyflogi, diogelwch rhag firysau technoleg gwybodaeth a hacwyr, a mesurau i ddiogelu rhannau o'r safle. Dylech adolygu eich cynlluniau'n rheolaidd ac os byddwch yn meddwl bod mwy o risg y bydd rhywun yn ymosod arnoch – o bosib oherwydd natur eich busnes neu leoliad eich safle – yna ystyriwch beth y gallai pobl eraill ddod i wybod am eich mannau gwan, er enghraifft:

- Gwybodaeth amdanoch sydd ar gael i'r cyhoedd, e.e. ar y rhyngrwyd neu mewn dogfennau cyhoeddus
- Unrhyw beth sy'n nodi safleoedd neu wasanaethau sy'n hollbwysig i barhad y busnes
- Unrhyw dargedau amlwg a allai fod yn ddeniadol i frawychwyr, ni waeth a fyddai eu colled yn arwain at fethiant y busnes.

Fel gyda Cham 1, ystyriwch a oes agwedd ar eich busnes neu weithgareddau y gallai brawychwyr fod eisiau manteisio arni er mwyn cynorthwyo eu gwaith. Os oes, pa mor drwyadl yw eich prosesau ar gyfer gwirio'r bobl y byddwch yn eu recriwtio neu bersonél sydd gennych ar gytundeb? A yw eich staff yn ymwybodol o ddiogelwch drwy'r amser?

Cam 3: Nodi'r mesurau i leihau risg

Mae'n hanfodol ymdrin â diogelwch mewn ffordd integredig. Mae hyn yn golygu meddwl am ddiogelwch corfforol, diogelwch gwybodaeth a diogelwch personél (h.y. arferion da o ran recriwtio a chyflogi), ac mae pob un o'r rhain yn dod dan yr adran Diogelu Eich Asedau. Prin ei bod hi'n werth buddsoddi mewn mesurau diogelwch corfforol os gall aelod o staff anfodlon neu broses recriwtio ddiofal eu tanseilio'n hawdd.

Mae llawer o'r rhagofalon diogelwch a ddefnyddir yn arferol i atal troseddwyr, hefyd yn effeithiol yn erbyn brawychwyr. Felly cyn i chi fuddsoddi mewn mesurau diogelwch ychwanegol, adolygwch y trefniadau sydd gennych eisoes.

Os bydd angen i chi gyflwyno mesurau diogelwch ychwanegol, yna gwnewch nhw'n fwy cost-effeithiol trwy gynllunio'n ofalus ble bynnag y bo modd. Cyflwynwch offer neu weithdrefnau newydd ar y cyd â gwaith adeiladu. Mewn adeiladau, canolfannau siopa, stryd fawr neu barciau busnes â llawer o ddeiliaid, ceisiwch gytuno ar drefniadau diogelwch cymunedol. Hyd yn oed os nad yw eich cymdogion yn pryderu am ymosodiadau gan frawychwyr, fe fydd troseddu yn gyffredinol yn bryder iddynt – a bydd eich mesurau diogelwch o gymorth i ddiogelu rhag trosedd yn ogystal â brawychiaeth.

Cam 4: Adolygu eich mesurau diogelwch a driliau

Dylech adolygu ac ymarfer eich cynlluniau diogelwch yn gyson. Bydd hyn o gymorth i sicrhau y byddant yn parhau'n ymarferol ac wedi'u diweddaru. Cofiwch y gallai fod angen eu haddasu er mwyn rhoi ystyriaeth i unrhyw newidiadau yn eich busnes. Er enghraifft, gallai gwaith adeiladu newydd, newid personél neu ddiwygio gweithdrefnau iechyd a diogelwch effeithio ar eich cynlluniau.

Gwnewch yn siwr fod eich staff yn deall a derbyn yr angen am fesurau diogelwch. Dylai diogelwch gael ei ystyried yn gyfrifoldeb cyffredin ac nid yn rhywbeth ar gyfer gweithwyr diogelwch proffesiynol yn unig. Ewch ati i'w gwneud mor hawdd â phosib i staff fynegi pryderon neu roi gwybod am eu sylwadau.

I gael gwybodaeth fanylach am asesu risg (gan gynnwys rhestr wirio i gynorthwyo i nodi'r meysydd ble gallai eich busnes fod mewn perygl) trowch at y cyhoeddiad *Secure in the Knowledge*.

CREU CYNLLUN DIOGELWCH

Mae'r cylch rheoli risg a ddisgrifir yn "Rheoli'r Risgiau" yn galw am greu cynllun diogelwch. Cyfrifoldeb Cydgysylltydd Diogelwch fydd hyn fel arfer.

Os nad oes gennych Gydgysylltydd Diogelwch ar hyn o bryd, fe ddylech benodi un. Mewn sefydliadau mawr, yn ddelfrydol fe ddylai rhywun ar lefel bwrdd ymgymryd â'r dasg, ac mewn sefydliad bach fe ddylai fod yn gyfrifoldeb ar lefel uwch, yn yr un modd. Heb unigolyn penodedig â'r awdurdod priodol i gyd-drefnu digwyddiadau, ni fydd unrhyw gynllun diogelwch yn hollol effeithiol. Rhaid i'r Cydgysylltydd Diogelwch fod yn ymwneud â chynllunio a rheoli diogelwch mewnol a diogelwch allanol yr adeilad, megis rheoli mynediad. Mae'n bwysig hefyd eich bod yn ymgynghori â nhw ynghylch unrhyw waith adeiladu newydd neu waith adnewyddu.

Bydd gan y Cydgysylltydd Diogelwch nifer o gyfrifoldebau allweddol:

- Paratoi cynllun diogelwch ar sail yr asesiad risg
- Sicrhau bod y mesurau diogelwch yn cael eu gweithredu a'u profi
- Ffurfio cynlluniau eraill wrth gefn sy'n delio â bygythiadau bomiau, pecynnau amheus a'r posibilrwydd o orfod gwagio'r safle
- Penderfynu pryd i symud yn ôl i safle ar ôl ei wagio
- Cysylltu â'r heddlu, gwasanaethau brys eraill a'r awdurdodau lleol
- Trefnu hyfforddiant i staff, pyramid cyfathrebu a driliau
- Cynnal adolygiadau rheolaidd o fesurau a gweithdrefnau diogelwch

Cyfrifoldeb cyntaf Cydgysylltydd Diogelwch yw paratoi'r cynllun diogelwch. Dylid ei baratoi mewn ymgynghoriad â'r gwasanaethau brys, ei ymarfer yn llawn a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Fe ddylai gynnwys y canlynol:

- Manylion yr holl fesurau diogelwch amddiffynnol sydd i'w gweithredu, gan gynnwys diogelwch corfforol, diogelwch gwybodaeth a diogelwch personél
- Cyfarwyddiadau ynghylch sut i ymateb i fygythiad (e.e. bygythiad bom dros y ffôn)
- Cyfarwyddiadau ynghylch sut i ymateb i eitemau neu ddigwyddiadau amheus
- Cynllun chwilio
- Cynlluniau gwagio, gan gynnwys manylion am ddiogelu'r safle petai angen gwagio'r lle yn llwyr
- Cynlluniau wrth gefn ar gyfer y busnes
- Strategaeth gyfathrebu a strategaeth gyfryngau sydd hefyd yn cynnwys delio ag ymholiadau gan deuluoedd a ffrindiau pryderus.

Fe ddylai eich cynlluniau gynnwys y saith cyfarwyddyd allweddol sy'n berthnasol i'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau:

1. Peidiwch â chyffwrdd ag eitemau amheus
2. Symudwch i bellter diogel
3. Rhwystrwch bobl eraill rhag dod yn nes
4. Cyfathrebwch yn ddiogel â staff, ymwelwyr a'r cyhoedd

5. Defnyddiwch radios llaw neu ffonau symudol yn ddigon pell i ffwrdd oddi wrth eitem amheus

6. Hysbyswch yr heddlu

7. Gwnewch yn siwr fod y sawl a ddaeth o hyd i'r eitem neu a fu'n dyst i'r digwyddiad yn parhau wrth law i siarad â'r heddlu.

CYNLLUNIO AR GYFER CHWILIO

Dylai cynllunio ar gyfer chwilio fod yn rhan o'ch cynllun diogelwch cyffredinol. Dylech chwilio fel rhan o'r drefn arferol - mewn siopau, er enghraifft, ar ddiwedd diwrnod o fusnes neu pan fydd rhybudd diogelwch yn eich ardal.

Rhaid i staff sy'n mynd ati i chwilio eich safle fod yn gyfarwydd â'r rhannau y maent yn eu chwilio ac â'r hyn y byddent yn disgwyl ei weld yno fel arfer, ond nid oes raid iddynt fod yn arbenigwyr ar ffrwydron neu ddyfeisiau eraill. Yn benodol, fe ddylent chwilio am unrhyw beth na ddylai fod yno neu sy'n anghyffredin, ac unrhyw beth na ellir ei egluro. Yn ddelfrydol, fe ddylai staff chwilio fesul dau er mwyn sicrhau na fydd unrhyw beth yn cael ei fethu.

Bydd chwilio'n digwydd ar ôl i safleoedd gael eu gwagio hefyd. Bryd hynny, mae'n gyfrifoldeb ar yr heddlu i gadarnhau bod yr adeilad yn ddiogel i bobl fynd yn ôl i mewn iddo. Os oes angen chwilio, mae'n bosib y bydd ar yr heddlu angen cymorth neu gyfraniad eich staff, a fydd yn llawer mwy cyfarwydd â'r safle.

Wrth baratoi cynllun chwilio fe ddylech:

- Benodi Cydgysylltydd Chwilio i baratoi a chynnal eich cynllun chwilio. Fe ddylai ef neu hi roi cychwyn ar unrhyw chwilio a chyd-gysylltu â phobl eraill sy'n chwilio

- Rhannu eich adeilad yn sectorau chwilio, pob un o faint hawdd ei reoli ar gyfer un neu ddau chwiliwr

- Rhoi blaenoriaeth i'r rhannau pwysig sydd angen eu chwilio, yn enwedig y rhai sydd ar agor i'r cyhoedd, rhannau gwan eraill fel ystafelloedd cotiau, grisiau, coridorau a lifftiau, yn ogystal â phwyntiau a llwybrau sy'n rhan o broses wagio'r safle, meysydd parcio a mannau eraill y tu allan, fel ardaloedd ar gyfer nwyddau neu lwytho

- Ystyried sut i ddechrau chwilio:

    - Trwy anfon neges dros y system sain gyhoeddus (gan ddefnyddio côd o bosib, rhag tarfu a dychryn pobl heb fod angen)
    - Trwy setiau radio neu beiriannau galw personol
    - Trwy byramid ffôn

- Gwneud yn siwr bod y chwilwyr yn gwybod beth i'w wneud os byddant yn dod o hyd i rywbeth amheus – ni ddylid ei gyffwrdd na'i symud o gwbl dan unrhyw amgylchiadau – a dylid galw'r heddlu ar unwaith

- Trafodwch eich cynllun chwilio gyda CTSA eich heddlu lleol a'i ymarfer yn rheolaidd.

CYNLLUNIO I WAGIO'R SAFLE

Fel gyda'r cynllun chwilio, dylai gwagio fod yn rhan o'ch cynllun diogelwch. Mae'n bosib y bydd angen i chi wagio eich safle oherwydd:

- Bygythiad wedi'i anelu'n uniongyrchol at yr adeilad
- Bygythiad a dderbynnir rywle arall a'i drosglwyddo atoch gan yr heddlu
- Darganfod rhywbeth amheus yn yr adeilad (pecyn drwy'r post efallai, neu fag neu sach deithio heb eu hawlio)
- Darganfod eitem neu gerbyd amheus y tu allan i'r adeilad
- Digwyddiad y mae'r heddlu wedi tynnu eich sylw ato.

Beth bynnag fo'r amgylchiadau, fe ddylech ddweud wrth yr heddlu pa gamau rydych yn eu cymryd cyn gynted â phosib.

Y penbleth mwyaf sy'n wynebu unrhyw un sy'n gyfrifol am gynllun gwagio yw sut i farnu ble fydd y lle mwyaf diogel. Er enghraifft, os yw eich llwybr ar gyfer gwagio'r adeilad yn tywys pobl heibio i ddyfais amheus y tu allan i'ch adeilad, neu drwy rywle a allai fod wedi'i lygru, mae'n bosib nad yw'n addas bwrw ymlaen i wagio'r adeilad. Efallai y bydd raid i chi ystyried defnyddio mannau/ardaloedd wedi'u diogelu.

Rheol gyffredinol yw dod i wybod a yw'r ddyfais y tu allan ynteu y tu mewn i'ch safle. Os yw y tu mewn i'r adeilad fe allwch ystyried gwagio'r lle, ond os yw'r ddyfais y tu allan i'r adeilad mae'n bosib y byddai'n fwy diogel i chi aros oddi mewn.

Fel arfer, eich penderfyniad chi fydd gwagio'r safle, ond bydd yr heddlu'n eich cynghori. Mewn achosion eithriadol mae'n bosib y byddant yn mynnu eich bod yn gwagio'r lle, er y dylent wneud hynny bob amser mewn ymgynghoriad â'ch Cydgysylltydd Diogelwch.

Y Cydgysylltydd Diogelwch ddylai fod yn gyfrifol am gynllunio a chychwyn gwagio'r safle. Gan ddibynnu ar faint eich busnes a lleoliad yr adeilad, gallai'r cynllun gynnwys:

- Gwagio'r lle yn llwyr ac anfon pawb y tu allan i'r adeilad
- Gwagio rhan o'r adeilad, os yw'r ddyfais yn fach ac y credir ei bod mewn un lleoliad yn unig (e.e. bom llythyr yn stafell y post)
- Gwagio'n llwyr neu'n rhannol i le diogel y tu mewn i'r adeilad, os oes un ar gael
- Gwagio'r holl staff ac eithrio chwilwyr dynodedig.

Gwagio

Rhaid rhoi cyfarwyddiadau clir i'r staff ynghylch gwagio'r safle a rhaid i lwybrau ac allanfeydd fod yn amlwg. Penodwch bobl yn drefnwyr a chysylltwyr ar ôl cyrraedd y man ymgynnull. Dylai mannau ymgynnull fod o leiaf 500 metr oddi wrth y digwyddiad. Gyda'r rhan fwyaf o fomiau cerbydau, er enghraifft, byddai'r pellter hwn yn eu gosod y tu hwnt i gadwyni'r heddlu – er y byddai'n ddoeth cael man arall tuag 1km i ffwrdd. Ni ddylai meysydd parcio gael eu defnyddio fel mannau ymgynnull.

Dylai staff anabl gael eu briffio'n unigol ynghylch y trefniadau gwagio iddyn nhw. Bydd llawer o sefydliadau yn cynghori y dylai staff anabl gael eu cario allan yn null cario ymladdwyr tân mewn unrhyw argyfwng.

Os bydd amheuaeth o'r canlynol:

- Bomiau llythyr neu fomiau parsel
- Symudwch y staff o'r ystafell a'r llawr dan sylw a'r ystafelloedd cyfagos ynghyd â'r ddau lawr union uwchben ac oddi tanodd.

- Digwyddiadau CBR
  Bydd ymatebion i ddigwyddiadau CBR yn fwy amrywiol na'r rhai sy'n ymwneud â dyfeisiau confensiynol neu fomiau tân, ond dylech nodi'r pwyntiau cyffredinol sy'n dilyn:

  - Mae'n bosib na fydd union natur y digwyddiad yn amlwg yn syth. Er enghraifft, fe allai IED olygu bod deunydd CBR yn cael ei ryddhau

  - Os amheuir digwyddiad CBR o fewn yr adeilad, dylech ddiffodd pob system awyru, a systemau neu eitemau eraill sy'n cylchredeg aer (e.e. pob ffan a chyfrifiadur personol). Peidiwch â chaniatáu i unrhyw un, boed mewn perygl ai peidio, adael mannau ymgynnull cyn i'r gwasanaethau brys roi cyngor, asesiadau neu driniaeth feddygol

  - Os bydd rhywbeth yn digwydd y tu allan i'r adeilad, caewch bob drws a ffenestr a diffodd unrhyw systemau sy'n tynnu aer i mewn i'r adeilad.

Dylech gytuno ar eich cynllun gwagio ymlaen llaw gyda'r heddlu a'r gwasanaethau brys, yr awdurdod lleol a chymdogion. Gwnewch yn siwr fod staff â chyfrifoldebau penodol yn cael eu hyfforddi a bod staff yn cael eu drilio. Cofiwch, hefyd, adael i'r heddlu wybod beth rydych yn ei wneud yn ystod unrhyw ddigwyddiad.

Dylai rheolwyr adeiladau sicrhau bod ganddynt wybodaeth ddigonol o'r systemau gwresogi, gwyntyllu ac awyru (HVAC) a sut gallai'r rhain gyfrannu at ledaenu deunyddiau CBR o fewn yr adeilad.

LLEOEDD DIOGEL

Mae'n bosib mai lleoedd diogel penodedig fydd yn cynnig y diogelwch gorau rhag ffrwydradau, gwydr a darnau o bethau eraill yn hedfan. Efallai hefyd mai dyma'r mannau mwyaf diogel pan na fydd lleoliad y bom posib yn hysbys, os yw'n agos at eich llwybr i adael yr adeilad neu os oes ymosodiad CBR y tu allan.

Gan fod gwydr a darnau eraill yn gallu lladd neu anafu gryn bellter i ffwrdd o ganol ffrwydrad mawr, yn aml fe fydd symud staff i le diogel penodedig yn fwy diogel na'u symud ar y strydoedd. Dylai lleoedd diogel gael eu lleoli:

- Mewn mannau wedi'u hamgylchynu â waliau cerrig neu goncrit maint llawn, e.e. coridorau mewnol, toiledau neu ystafelloedd cynhadledd gyda drysau sy'n agor tuag i mewn
- I ffwrdd oddi wrth ffenestri, drysau a waliau allanol
- I ffwrdd oddi wrth yr ardal rhwng perimedr yr adeilad a'r rhes gyntaf o golofnau cynhaliol
- I ffwrdd oddi wrth risiau neu fannau gyda mynediad at siafftiau lifft, ble bydd y rhain yn agor at y stryd ar lefel y llawr, oherwydd fe all y ffrwydrad deithio i fyny trwyddynt. Ar y llaw arall, os yw'r grisiau a'r lifft wedi'u hamgáu'n llwyr, fe allent wneud lleoedd diogel da
- Osgoi'r llawr isaf neu'r llawr cyntaf os oes modd
- Yn rhywle gyda digon o le i ddal y bobl.

Wrth ddewis lle diogel penodedig, holwch am gyngor gan beiriannydd adeileddol sydd â gwybodaeth am effeithiau ffrwydradau a pheidiwch ag anghofio y bydd angen cyfleusterau toiledau, seddi, dŵr yfed a ffordd o gyfathrebu.

Ystyriwch gael systemau neu asedau hanfodol dyblyg mewn adeiladau eraill sy'n ddigon pell fel na fydd yr argyfwng yn effeithio arnynt, os byddwch yn methu cael mynediad i'ch adeilad eich hun. Os na fydd hyn yn bosib, ceisiwch leoli systemau hanfodol mewn rhannau o'ch adeilad sy'n cynnig diogelwch tebyg i'r hyn a geir mewn lle diogel.

Cyfathrebu

Gwnewch yn siwr fod y staff penodedig yn gyfarwydd â'u swyddogaethau diogelwch a bod modd cysylltu bob amser â nhw neu â'u dirprwyon. Dylai pob aelod o staff, gan gynnwys staff nos neu staff dros dro, fod yn gyfarwydd ag unrhyw gyfleusterau recordio ar y ffôn, a systemau ailddeialu neu arddangos, a gwybod sut i gysylltu â'r heddlu a staff diogelwch adeg oriau'r swyddfa neu ar ôl hynny.

Mae'n hollbwysig bod modd cyfathrebu'n addas o fewn a rhwng lleoedd diogel. Ar ryw bwynt fe fyddwch eisiau rhoi arwydd bod popeth yn iawn, neu ddweud wrth y staff am aros ble y maent, symud i fan diogel arall neu adael yr adeilad. Gallwch gyfathrebu dros y system sain (os felly bydd angen pŵer wrth gefn), radio llaw neu systemau eraill sy'n gweithio ar eu pen eu hunain. Peidiwch â dibynnu ar ffonau symudol.

Bydd angen i chi allu cyfathrebu â'r gwasanaethau brys hefyd. Pa bynnag systemau a ddewiswch, dylent gael eu profi'n rheolaidd a bod ar gael o fewn y lle diogel penodedig.

Newid i gynllun agored

Os ydych yn newid eich adeilad i fod ar gynllun agored, cofiwch fod tynnu waliau mewnol yn rhoi llai o ddiogelwch rhag ffrwydradau a darnau'n hedfan. Bydd ystafelloedd mewnol gyda waliau concrit neu gerrig cyfnerth yn aml yn gwneud lleoedd diogel addas, gan eu bod yn dueddol o aros yn gyfan petai ffrwydrad y tu allan i'r adeilad.

Os nad oes gennych goridorau, fe allech chi hefyd golli eich llwybrau gadael a gwagio, mannau ymgynnull neu leoedd diogel, ac mae'n debygol y bydd y cynllun newydd yn effeithio ar eich trefniadau wrth gefn rhag bygythiadau o du bomiau.

Wrth wneud newidiadau o'r fath, ceisiwch sicrhau na fydd gostyngiad sylweddol yn niogelwch y staff, er enghraifft trwy wella'r diogelwch rhag gwydr. Os yw eich safle eisoes ar gynllun agored ac nad oes unrhyw fannau diogel addas, yna mae'n bosib na fydd dewis ond gwagio a gadael y safle.

PARHAD Y BUSNES

Yn amlwg, nid brawychiaeth yw'r unig beth sy'n eich arwain i lunio cynllun ar gyfer parhad eich busnes, ond fe fyddai cynllun o'r fath yn hanfodol i oroesiad eich busnes petai digwyddiad brawychol yn effeithio arno. Mae'r manteision yn ehangach lawer. Bob blwyddyn, bydd rhywbeth mawr yn amharu ar bron i un busnes ym mhob pump, ac mae'n gwneud synnwyr busnes mynd ati i gynllunio i ddelio â'r amhariadau hynny.

Mae cynllunio parhad eich busnes yn hollbwysig ar gyfer sicrhau bod swyddogaethau hanfodol eich busnes yn gallu parhau, er gwaethaf argyfwng. Bydd gan lawer o fusnesau gynlluniau eisoes ar gyfer delio â risg fasnachol sydyn. Gallai'r rhain gynnwys digwyddiadau fel methiant cyflenwyr hollbwysig, drwgddyled annisgwyl, gweithredu diwydiannol neu ddarganfod nam difrifol mewn cynnyrch neu broses. Mae cynllunio ar gyfer canlyniadau digwyddiad brawychol yn debyg iawn.

Gall argyfyngau beryglu eich sefydliad

Er enghraifft, gallai digwyddiad brawychol mawr arwain at y canlyniadau canlynol:

- Difrod i'ch adeiladau
- Colli systemau technoleg gwybodaeth, cofnodion, systemau cyfathrebu a chyfleusterau eraill
- Staff ddim ar gael oherwydd bod rhywbeth wedi amharu ar drafnidiaeth neu eu bod yn amharod i deithio
- Colli staff oherwydd marwolaeth neu niwed
- Effeithiau seicolegol negyddol ar staff, gan gynnwys tyndra a digalondid
- Amharu ar sefydliadau a busnesau eraill rydych o bosib yn dibynnu arnynt
- Difrod i enw da
- Newidiadau yn y galwadau busnes ar eich sefydliad.

Bydd arnoch angen yr adnoddau priodol i gynnal elfennau hanfodol eich busnes yn dilyn digwyddiad llesteiriol.

Mae'r rhain yn debygol o gynnwys:

- Digon o bobl gyda'r arbenigedd a'r cymhelliad angenrheidiol i arwain a rheoli'r sefydliad
- Mynediad at gofnodion allweddol a systemau technoleg gwybodaeth
- Dulliau cyfathrebu dibynadwy, yn enwedig gyda'ch staff
- Y gallu i barhau i dalu i staff, i sicrhau eu diogelwch a darparu lles a llety iddynt
- Y gallu i gael nwyddau a gwasanaethau
- Y gallu i ymateb i ofynion y cyfryngau.

Dylid mynd ati i ddatblygu cynllun parhad busnes mewn ffordd systematig

Mae'r llyfryn *Expecting the Unexpected*, a gyhoeddwyd ar y cyd gan Swyddfa Diogelwch Gwrthfrawychiaeth Genedlaethol yr heddlu, London First a'r Sefydliad Parhad Busnes, yn amlinellu pum cam y gallwch eu dilyn i ddatblygu cynllun parhad busnes:

1. Dadansoddi eich busnes. Gan weithio gyda chefnogaeth lwyr uwch reolwyr, mae angen i chi ddeall eich busnes a sut y mae'n gweithio, gan gynnwys pa swyddogaethau sy'n hanfodol a ble mae eich gwendidau

2. Asesu'r risgiau. Mae angen i chi ddeall pa argyfyngau allai effeithio ar eich busnes a pha effaith y byddent yn eu cael. Trwy ganolbwyntio ar effeithiau yn hytrach nag ar achosion, byddwch yn sicrhau bod eich cynllun yn caniatáu i chi ddelio'n effeithiol â digwyddiad, ni waeth beth fo'r ffynhonnell

3. Datblygu eich strategaeth. Bydd angen i chi gytuno gydag uwch reolwyr beth yw awydd y sefydliad am risg. Yna fe allwch benderfynu pa risgiau y gellir eu derbyn, pa risgiau y gellir eu lleihau a pha risgiau y dylid eu rheoli gan ddefnyddio cynllunio parhad y busnes

4. Datblygu eich cynllun. Yna fe ddylech ddatblygu cynllun parhad y busnes gan gynnwys pob maes y cytunwyd arno. Mae pob cynllun yn edrych yn wahanol, ond fe ddylent egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau, bod yn hawdd eu deall ac yn agored ar gyfer ymgynghoriad ac adolygiad o gwmpas eich sefydliad

5. Ymarfer eich cynllun. Mae ymarfer yn helpu i gadarnhau y bydd eich cynllun yn gydlynol a chadarn os bydd ei angen byth. Mae ymarfer yn ffordd dda hefyd o hyfforddi staff sydd â chyfrifoldebau o ran rheoli parhad y busnes. Gallwch ddefnyddio gwersi o'r ymarferiadau hyn i fireinio eich penderfyniadau yng nghamau un i bedwar.

Beth allwch chi ei wneud ar unwaith

Os nad oes gennych gynllun parhad busnes, ystyriwch y ffordd orau o wneud eich sefydliad yn fwy hydwyth tra bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu. Penodwch dîm rheoli argyfwng dan arweiniad uwch staff, ymgorfforwch gynlluniau olyniaeth ar gyfer personél allweddol a threfnwch system byramid gadarn dros y ffôn a/neu e-bost er mwyn cysylltu â staff y tu allan i oriau gwaith.

Gwnewch yn siwr fod copïau o ddata neu gofnodion hanfodol yn cael eu storio oddi ar y safle a bod modd cael mynediad at systemau technoleg gwybodaeth o safleoedd eraill. Gall aelodau staff barhau i weithio o gartref os oes ganddynt fynediad o bell at eich systemau technoleg gwybodaeth. Dylech sicrhau bod gennych drefniadau bancio a threfniadau ariannol cadarn er mwyn gallu parhau i wneud taliadau a chynnal eich busnes.

Rhagor o gyngor

Mae amrywiaeth eang o gyngor am barhad busnes ar gael, a llawer ohono am ddim. Mae gwefan y Llywodraeth sef Paratoi ar gyfer Argyfyngau (www.pfe.gov.uk) yn rhoi gwybodaeth eang ar gyfer busnesau (gan gynnwys *Expecting the Unexpected*) a chysylltau â sefydliadau allweddol. Mae gwybodaeth fanylach ar gyfer pobl broffesiynol ym maes parhad busnes yn www.ukresilience.info.

Yn lleol, mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn mynnu bod awdurdodau lleol yn rhoi cyngor a chymorth i fusnesau mewn perthynas â rheoli parhad busnes. Trowch at wefan eich awdurdod lleol i gael rhagor o fanylion.